MENTER CAERDYDD

"HYRWYDDO AC EHANGU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG YNG NGHAERDYDD"

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23

menter caerdydd



# GAIR GAN Y CADEIRYDD

Gyda thipyn o falchder a thipyn o ryddhad mi rydan ni'n adrodd 'nôl ar y flwyddyn gyntaf ers cyfyngiadau cofid. Diolchwn am gael dychwelyd i rhyw fath o normal a pheidio byth cymryd hynny yn ganiatáol eto. Gydag unrhyw weithgaredd ers cofid, rhaid oedd addasu i gynulleidfa oedd wedi encilio ac oedd angen eu denu i fentro allan o'u cregyn. Ond, diolch i garedigrwydd ein partneriaid a rhoddwyr grant, creadigrwydd, ymroddiad diflino a hyblygrwydd ein staff, yr arlwy eang a'r gynulleidfa barod, mi roedd gweithgareddau Menter Caerdydd yn eu hôl.

Yn sgil y pandemic, daeth bygythiad yr argyfwng costau byw a chyfyngiadau ar wariant arian cyhoeddus i herio gwaith y Fenter. Ond hoffwn ddiolch i oruchwyliaeth fy nghyd ymddiriedolwyr ar y Bwrdd, i staff craff y Fenter ac i'n partneriaid am weithio i ddiogelu twf a ffyniant yr iaith Gymraeg er gwaetha'r heriau diweddar.

Rwy'n hynod falch o gyrhaeddiadau'r Fenter mewn gwobrwyon sy'n cydnabod yr hyn rydym yn ei wybod yn fewnol bod yr iaith Gymraeg yn bwysig i ddinasyddion Caerdydd a bod defnyddio'r Gymraeg yn cyfoethogi ein bywydau. Y dasg i'r dyfodol yw darbwyllo mwy o'n cyd-ddinasyddion bod y Gymraeg yn ganolog i fywyd cyfoethog ein prifddinas.

**JOANNA ADAMS**
**CADEIRYDD**



# GAIR GAN Y PRIF WEITHREDWR

Wedi dwy flynedd o addasu'n darpariaeth yn sylweddol o ganlyniad i effeithiau Covid 19 braf oedd cael dychwelyd i gynllunio darpariaeth mwy traddodiadol yn 2022/23, heb nifer o'r cyfyngiadau a fu arnom fel sefydliad. Dychwelodd Tafwyl i fod yn ŵyl ar ei ffurf draddodiadol yng Nghastell Caerdydd, gan ddenu torf o 30,000, tra bod gweithgareddau cumunedol megis darpariaeth Bwrlwm a chynlluniau gofal wedi dychwelyd yn ystod pob cyfnod gwyliau.

Er bod agweddau mwyaf traddodiadol ein darpariaeth wedi dychwelyd, mae sawl agwedd o ddarpariaeth y cyfnod clo wedi parhau, megis y sesiynau Zoom ar-lein. Sylweddolwyd pa mor werthfawr oedd y sesiynau ar-lein trwy fisoedd y gaeaf gan eu bod yn bwynt cyswllt gwerthfawr i nifer o ran y Gymraeg.

Bu 2022/23 yn gyfnod o ddatblygu ac o ail-sefydlu perthynas gyda'n partneriaid ac unigolion o fewn y gymuned. Mae'r cydweithio agos wedi bod yn allweddol yn ein gwaith o rymuso sefydliadau a chymunedau i weithredu yn Gymraeg - boed nhw'n gwmni mawr masnachol, grwp cymunedol neu dafarn yn cynnal gweithgaredd Cymraeg am y tro cyntaf.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r holl bartneriaid sydd yn ein cefnogi drwy'r flwyddyn ac yn edrych ymlaen i barhau i adeiladu ar dwf y Gymraeg yng Nghaerdydd a ddatgelwyd yng nghyfrifiad 2021. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, ein partneriaid â'r gymuned i weithio at yr amcan o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd a chyrraedd y nôd o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

**PRIF WEITHREDWR**

**HEULYN REES**





# PRIF WASANAETHAU MENTER CAERDYDD

Clybiau Chwarae a Gofal

Darpariaeth Addysg Oedolion a Hamdden

Tafwyl

Clybiau Wythnosol i Blant a Ieuenctid

Gweithgareddau Cymunedol

Ffonlyfr

Hyrwyddo Gweithgareddau a Chefnogi Sefydliadau

Grymuso Cymunedau





## Blaenoriaethau'r Rhaglen Waith 2022-23

- Ehangu ar ddarpariaeth Menter Caerdydd yn nwyrain y ddinas
- Mapio darpariaeth Gymraeg ar draws y ddinas
- Cryfhau darpariaeth ieuenctid ar draws y ddinas trwy ddatblygu rhaglen o weithgareddau mewn clybiau ieuenctid cymunedol
- Targedu rhieni ifanc a hyrwyddo manteision addysg Gymraeg

# PLANT A PHOBL IFANC



Mae'r ddarpariaeth wedi bod yn amrwyiol iawn yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cynlluniau gofal plant, sesiynau chwarae agored mewn lleoliadau amrywiol ar draws y ddinas, clybiau, gweithdai, digwyddiadau celfyddydol, sesiynau amser stori a grwpiau i rieni a phlant.

**GWEITHGAREDD**
**532**

**MYNYCHWYR:**
**9,432**



# OEDOLION A'R GYMUNED

Gwelwyd tŵf mawr yn y ddarpariaeth i oedolion yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i nawdd gan y Loteri Treftadaeth a grant Addysg Oedolion Cyngor Caerdydd.

Mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys elfennau megis sgyrsiau ar-lein, teithiau cerdded, gweithdai, perfformiadau cerddorol, dosbarthiadau addysg oedolion, gigs a llawer mwy.

**GWEITHGAREDD**
**158**

**MYNYCHWYR**
**2,231**







# IEUENCTID

Gwelwyd datblygiadau cyffrous iawn yn y maes ieuenctid drwy sefydlu darpariaeth CFTi o fewn y ddinas. Yn y bartneriaeth hon rhwng yr Urdd, Menter Caerdydd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Caerdydd, diogelwyd darpariaeth o waith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl ysgol yng Nghaerdydd. Mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys gigs, clybiau ieuenctid, gweithgareddau ar ôl ysgol, teithiau a sefydlwyd Fforwm Ieuenctid newydd.

**GWEITHGAREDD**
**60**

**MYNYCHWYR**
**2,678**

# TAFWYL 2022

**Dychwelodd Tafwyl i Gastell Caerdydd ar ei ffurf draddodiadol am y tro cyntaf mewn dwy flynedd. Croesawyd dros 30,000 i fwynhau y gorau o ddiwylliant Cymreig yng nghalon y brifddinas.**








"DIOLCH I BAWB A FU WRTHI GYDA TAFWYL DROS Y PENWYTHNOS - ATGYFODIAD A HANNER I GANOL Y DDINAS, OEDD WIR FEL Y BEDD AR ADEGAU DROS Y DDWY FLYNEDD DDWETHA. HYFRYD GWELD PAWB YN WÊN O GLUST I GLUST, A'R GYMRAEG YN GURIAD CALON I'R BRIFDDINAS"

YMWELWYR: **30,000**

GWERTH ECONOMAIDD **£1,500,000+**

**40** BAND

**50+** NODDWR

## NODDWYR

## PARTNER CYFRYNGAU A CHYNNWYS

Orchard.

## PARTNERIAID

# CYDNABYDDIAETH I WAITH MENTER CAERDYDD

Enillydd Categori Cymuned
Gwobrau Mentrau Iaith
2022-23
Menter Caerdydd
MENTRAU IAITH

FINALIST
Cardiff Life
AWARDS 2023



**Tafwyl**

"Terrific Tafwyl welcomed 31,000 weekend visitors, with even more viewers watching live via S4C. With over 40 artists performing, this was the most diverse Welsh language line-up yet."

www.tafwyl.cymru | @tafwyl

Sponsored by: Cardiff Rugby

3 08:54 100%

Diolch enfawr i staff Bwrlwm @MenterCaerdydd
Y ddau yma wedi joio'n FAWR pnawn 'ma! 🍓 ☀️ 😎

Translate Tweet



23:15 · 01/08/2022 · Twitter for

Tweet your reply

## ADBORTH AM EIN GWAITH:

'I took my son and his two friends to Liege Manor this morning and just wanted to say a big diolch for such a great opportunity for them.'

'Diolch hefyd i Menter Caerdydd am yr holl gyfleodd ers y dechrau, nôl ym mis Mawrth mewn gweithdy cyfansoddi - ac yna y prosiect 'Yn Cyflwyno'.'

'Am dim! DIOLCH MASSIF am greu digwyddiad ANHYGOEL! Fy Tafwyl cyntaf, ond yn sicr dim olaf.'

'Hyd yn oed yn y glaw - anhygoel!'

'Unbelievable stuff at Tafwyl. Wales is thriving!'

# DIOLCH I'N HOLL BARTNERIAID, NODDWYR, CEFNOGWYR A DEFNYDDWYR GWASANAETH!










## mentercaerdydd.cymru

Rhif elusen:1098606 Rhif Cwmni: 4576565

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

CARDIFF CAERDYDD

menter caerdydd

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government